Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales


# Adroddiad Blynyddol 2023/24




ambitionnorth.wales

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair | 3 |
| Bwrw twf yn ei flaen yn ein rhanbarth | 4 |
| Buddsoddi yng Ngogledd Cymru | 5 |
| Cerrig Milltir | 6 |
| Uchafbwyntiau Chwarterol 2023- | 7 |
| Cynllun Twf Gogledd Cymru | 15 |
| Tu hwnt i'r Cynllun Twf | 23 |
| Sgiliau a Chyflogaeth | 24 |
| Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd | 27 |
| Cynlluniau Ynni Ardal Leol | 29 |
| Cyllid Ffyniant Gyffredin | 31 |
| Tŷ Gobaith | 33 |
| Y flwyddyn nesaf | 34 |

# EIN UCHELGAIS

Bod yn hyderus ac yn gydlynol, yn canolbwyntio ar wella llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol y rhanbarth.

Gweld y rhanbarth yn datblygu mewn modd cynaliadwy, gyda chyfleoedd i bobl ennill sgiliau newydd, datblygu gyrfaoedd gwerth chweil, i fusnesau dyfu ac i gymunedau ffynnu.

Gwneud hyn gan hyrwyddo'r Gymraeg, ein diwylliant a'n treftadaeth, ac yn unol â nodau llesiant Cymru.

# Rhagair

Mae'n bleser gennym gyflwyno Adroddiad Blynyddol 2023-24 i chi, sy'n amlygu'r cynnydd a wnaed wrth gyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru yn ei drydedd flwyddyn. Nod y cytundeb 15 mlynedd hwn rhwng Uchelgais Gogledd Cymru, Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yw creu swyddi newydd gwerth uchel a denu buddsoddiad sector preifat, gan wella llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Gogledd Cymru.

Yr haf hwn, derbyniodd y Gorchymyn Adolygu Harbwr hir-ddisgwyliedig, sy'n hanfodol ar gyfer prosiect ymestyn porthladd Caergybi, gymeradwyaeth gan Weinidogion Llywodraeth Cymru. Mae'r garreg filltir hon yn caniatáu i brosiect Porth Caergybi, wedi arwain gan Stena Line, symud ymlaen i adfer 11.7 hectar o dir o'r môr. Bydd y prosiect sy'n amodol ar gymeradwyaeth yr achos fusnes yn sicrhau creu cannoedd o swyddi newydd a sicrhau buddsoddiad sylweddol yn y rhanbarth.

Yn ogystal, dyrannodd Cronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU £126.5 miliwn ar draws ein chwe chyngor. Mae'r dyraniad hwn, yn seiliedig ar gynllun buddsoddi rhanbarthol, yn canolbwyntio ar feithrin balchder lle a chynyddu'r cyfleoedd mewn bywyd. Ar y cyd, rydym wedi cyfeirio £1 miliwn o'r cyllid hwn i wella effaith ac effeithlonrwydd y Cynllun Twf ymhellach. Bydd ein blaenoriaethau rhanbarthol cyffredin mewn Sgiliau a Chyflogadwyedd, Ynni a Sero Net, Buddion a Gwerth Cymdeithasol a Chysylltedd Digidol yn cyflawni prosiectau arloesol sydd wedi'u dylunio i gyfoethogi ac ymgorffori yn ein cynlluniau datblygu economaidd rhanbarthol presennol.

Mae gwella cysylltedd digidol a sicrhau bod gan bawb fynediad i gysylltedd digidol cyflym a dibynadwy yn angenrheidiol yn y byd sydd ohoni. Eleni, drwy Gronfa Band Eang Lleol Llywodraeth Cymru, fe wnaethom arwain prosiect i ddarparu band eang ffeibr optig sydd â gallu gigabit mewn un-deg-saith o adeiladau cyhoeddus, gan gynnwys meddygfeydd, llyfrgelloedd a neuaddau pentref ar draws Gogledd Cymru.

Mae ein hymrwymiad i ddatblygiad cynaliadwy i'w weld yn y Cynlluniau Ynni Ardal Leol - sy'n sicrhau bod pob un o'n chwe chyngor yn amlinellu gweledigaeth rymus ar gyfer system ynni carbon sero net erbyn 2050 a chynllun gweithredu i gyflawni hyn.

Parchir Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn ddiamau yn ei harweinyddiaeth o'r rhaglen sgiliau a chyflogadwyedd ar gyfer Gogledd Cymru ac rydym yn gobeithio gweld y berthynas hon yn parhau i dyfu ac ennyn mwy o gefnogaeth gan Lywodraeth Cymru.

Mae mwyafrif yr enghreifftiau yma yn mynd tu hwnt i'r Cynllun Twf, maent yn adlewyrchu'r weledigaeth a'r uchelgais ehangach sydd gennym ar gyfer y Gogledd.

Mae hi wedi bod yn fraint i ni arwain yr hyn sydd wedi bod yn flwyddyn brysur a chynhyrchiol i Uchelgais Gogledd Cymru.



**Y Cyng. Dyfrig Siencyn**
Cadeirydd y Bwrdd Uchelgais



**Y Cyng. Mark Pritchard**
Is-Gadeirydd y Bwrdd Uchelgais

# BWRW TWF YN EI FLAEN YN EIN RHANBARTH

Mae'n dair blynedd ers i ni lofnodi cytundeb Cynllun Twf Gogledd Cymru ac eleni rydym wedi gweld pump arall o'n prosiectau yn cael cymeradwyaeth i'w hachosion busnes amlinellol - y Rhwydwaith Talent Twristiaeth, Egni, Gwaith Treulio Anerobig Glannau Dyfrdwy, 4G+ a Chyn-Ysbyty Gogledd Cymru yn Ninbych. Mae hyn yn golygu bod deg prosiect bellach wedi cyrraedd y cam hwn dros y tair blynedd diwethaf. O ystyried arwyddocâd digwyddiadau byd-eang yn ystod y cyfnod hwn, rydw i yn falch o gydnabod yr hyn y mae partneriaeth Uchelgais Gogledd Cymru wedi'i gyflawni.

Fe wnaeth y Ganolfan Opteg a Pheirianneg Menter hefyd symud i wedd cyflawni ar ôl sicrhau cymeradwyaeth ar gyfer ei achos busnes llawn i sicrhau cyllid y Cynllun Twf. Mae hon yn garreg filltir arwyddocaol gan ein bod yn gweld y cyntaf o'n prosiectau cyfalaf yn cael ei adeiladu. Yn fuan iawn ar ôl seremoni torri'r dywarchen ar 22 Chwefror, roedd Wynne Construction ar y safle ac yn gweithio ar safle Plas Coch.

Yn ystod cyfnod cynnar y llynedd, aethom allan i'r farchnad i chwilio am brosiectau newydd ac arloesol i ymuno â'r Cynllun Twf. Ar ôl proses drwyadl, roedd yn bleser gennym gyhoeddi ym mis Gorffennaf fod pum prosiect newydd wedi'u gwahodd i gyflwyno eu hachosion busnes amlinellol, gyda phob un yn chwilio am gyfran o'r £30m o gyfalaf oedd ar gael. Mae Stiwdios Kinmel, Anturiaethau Cyfrifol, Porth Wrecsam a Hwb Hydrogen Caergybi yn gweithio ar eu hachosion busnes amlinellol, ac mae Gwaith Treulio Anerobig Glannau Dyfrdwy eisoes wedi derbyn cymeradwyaeth.

Mae hyn yn profi, o'i gymharu â llynedd pan welsom ddau o'n prosiectau yn tynnu'n ôl o'r Cynllun Twf ac un arall yn newid ei sgôp yn sylweddol, fod eleni wedi bod yn flwyddyn o gryfhau ein portffolio o brosiectau. Mae'r cyfan yn arwydd o flwyddyn bositif o'n blaenau ac rydym yn bwriadu mynd â'r prosiectau newydd hyn i'r cam cyflawni. Yn y pen draw, mae ein huchelgais drwy'r mentrau trawsnewidiol hyn yn parhau i fod yn ddigyfnewid - byddant yn dod â swyddi gwerth uchel newydd a buddsoddiad yn ogystal â chyflawni ein dyhead ehangach i adeiladu economi bywiog, cynaliadwy a gwydn i ogledd Cymru.

Mae'r rhagolygon yn bositif wrth i'r flwyddyn ddirwyn i ben gyda chanlyniad calonogol i'n Her Ariannwr Hydrogen, pan gafodd noddwr ei benodi i arwain y gwaith o gyflawni'r Hwb Hydrogen. Mae Memorandwm o Ddealltwriaeth yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd cyn y bydd cyhoeddiad swyddogol ar noddwr y prosiect yn cael ei wneud. Nod y prosiect fydd helpu sefydliadau sy'n cael eu pweru gan danwydd ffosil i ddod yn gwsmeriaid hydrogen carbon isel a chyflawni cyfleuster cynhyrchu hydrogen gweithredol.

Rydw i'n hynod o falch o fy nhîm, y bartneriaeth a'r momentwm yr ydym yn ei adeiladu ar gyfer rhagoriaeth yn ein ffyrdd o weithio. Y llynedd, fe wnaethom dderbyn cydnabyddiaeth fel Astudiaeth Achos Arweinyddiaeth yng nghanllawiau carbon mewn isadeiledd cenedlaethol y DU. Gyda'n gilydd, rydym hefyd yn ymwybodol o'n cyfrifoldeb cymdeithasol fel tîm ac wedi bod yn codi arian yn ystod y flwyddyn i'n helusen eleni, sef hosbis plant Tŷ Gobaith.

Gyda'n hangerdd am ogledd Cymru - ei economi, busnesau, cymunedau a phobl, rydym wedi ymrwymo i weld ein rhanbarth yn ffynnu yn y dyfodol. Rwy'n edrych ymlaen at fod yn rhan o'r daith dros y flwyddyn nesaf.



**Alwen Williams**

Cyfarwyddwr Portffolio

> Mae Gogledd Cymru yn gwneud ei farc - ac mewn sefyllfa unigryw i adeiladu ar ei gryfderau ac ymdrin â heriau byd-eang.



**Askar Sheibani**

Cadeirydd y Bwrdd Cyflawni Busnes

Mae cynhesu byd-eang, ansefydlogrwydd economaidd rhyngwladol a gwrthdaro rhanbarthol parhaus wedi sbarduno newidiadau radical mewn polisi llywodraethau ledled y byd. Mae sawl gwlad yn ei chael yn anodd addasu i'r dirwedd economaidd sy'n newid yn gyflym. Mae hyn wedi arwain at gyflymiad mewn gwariant ar amddiffyniad a diogelwch cenedlaethol sydd wedi arwain at dwf sylweddol yn y sectorau aerofod a pheirianneg uwch-dechnoleg.

Yn ôl y Gronfa Ariannol Ryngwladol, mae cyflawni'r targed Sero Net yn gofyn am fuddsoddiad o hyd at $6 triliwn bob blwyddyn. Mewn ymateb i'r heriau byd-eang yma, mae Gogledd Cymru mewn sefyllfa unigryw i chwarae rôl ganolog. Mae'r rhanbarth eisoes wedi dechrau gosod y seiliau ar gyfer twf sylweddol mewn prosiectau ynni adnewyddadwy a datgarboneiddio.

Un prosiect o'r fath yw'r prosiect Llif Llanw ar Ynys Môn, sydd â'r nod o gynhyrchu 240MW ynni glân carbon isel yn y pen draw. Mae Gogledd Cymru hefyd yn gartref i ffermydd solar mwyaf y DU, gyda mwy o brosiectau ynni carbon isel wedi'u cynllunio ar draws y rhanbarth, yn cynnwys isadeiledd ar gyfer ynni hydrogen.

Ymhellach, mae gan ogledd Cymru bresenoldeb cryf yn sector gweithgynhyrchu awyrofod ac arloesol y byd. Mae'r rhanbarth wedi alinio'i hun â'r llwybr economaidd byd-eang brys, gan ei wneud yn un o'r rhanbarthau mwyaf poblogaidd ar gyfer buddsoddi.

Gyda chefnogaeth tîm o arweinwyr busnes profiadol iawn o fewn y Bwrdd Cyflawni Busnes, mae Uchelgais Gogledd Cymru yn gyrru'r mentrau hyn yn eu blaen. Mae eu henw da rhagorol ar lefel ryngwladol yn sicrhau bod Gogledd Cymru yn parhau i fod ar flaen y gad o ran datblygu economaidd ac arloesi.

# UCHAFBWYNTIAU 2023 - 24

Ebrill 2023 - Mawrth 2024



**Ebrill**

Derbyniom gydnabyddiaeth fel Astudiaeth Achos Arweinyddiaeth yng nghanllawiau carbon mewn isadeiledd cenedlaethol y DU.



**Mai**

Fe wnaethom gyflwyno ar ein cynnydd, yr RSP a chyfleoedd ar gyfer cydweithredu trawsffiniol i Is-bwyllgor Cabinet Gogledd Cymru.



**Mehefin**

Fe wnaethom lansio'r her Ariannwr Hydrogen.



**Gorffennaf**

Fe wnaethom groesawu 5 prosiect newydd i ymuno â'r Cynllun Twf.




**Awst**

Roedd gennym stondin yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Moduan.



**Medi**

Fe wnaeth cydweithrediad  gan y Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol lansio Prosbectws a Fideo Ynni Carbon Isel.



**Hydref**

Cafodd Achos Busnes Amlinellol y Rhwydwaith Talent Twristiaeth ei gymeradwyo gan y Bwrdd Uchelgais.



**Tachwedd**

Cafodd Achos Busnes Llawn y Ganolfan Peirianneg Menter ac Opteg ei gymeradwyo gan y Bwrdd Uchelgais.



**Rhagfyr**

Cafodd yr Achosion Busnes Amlinellol ar gyfer Gwaith Treulio Anerobig Glannau Dyfrdwy ac Egni ei cymeradwyo gan y Bwrdd Uchelgais.



**Ionawr**

Lansiwyd pecyn Cymorth Pobl Ifanc y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol i helpu pobl ifanc i ddilyn y llwybr sy'n gweddu orau iddynt.



**Chwefror**

Cafodd Achos Busnes Amlinellol Cyn Ysbyty Gogledd Cymru ei gymeradwyo gan y Bwrdd Uchelgais.



**Mawrth**

Cynhaliwyd cyfres o weithdai i adolygu allbynnau allweddol y Cynlluniau Ynni Ardal Leol.

Uchafbwyntiau Chwarter 1

Ebrill i Mehefin 2023

## ASTUDIAETH ACHOS ARWEINYDDIAETH

Fe wnaethom dderbyn cydnabyddiaeth fel Astudiaeth Achos Arweinyddiaeth yng nghanllawiau carbon mewn isadeiledd cenedlaethol y DU PAS 2080 a gafodd ei alw'n "game-changer" gan Fforwm Economaidd y Byd. Mae'r canllawiau yn darparu safon ar gyfer rheoli carbon mewn adeiladau ac isadeiledd, gan leihau carbon a chost drwy ddylunio, adeiladu, a defnyddio deallus.

## SPARCX

Noddwyd SparcX ochr yn ochr â'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol. Roedd y digwyddiad, a gynhaliwyd gan M-Sparc, yn gyfle i gyflogwyr a phobl sy'n chwilio am waith yn y sector Gwyddoniaeth a Thechnoleg gyfarfod i drafod cyfleoedd recriwtio. Roedd y digwyddiad yn llwyddiant mawr, gyda llawer o bobl oedd yn chwilio am waith yn sicrhau cyfweliadau am swyddi.

## CONTRACTAU WEDI'U LLOFNODI AR GYFER AIL WEDD Y GANOLFAN PROSESU SIGNALAU DIGIDOL

Llofnodwyd contractau ar gyfer ail gam offer y Ganolfan Prosesu Signalau Digidol a ariennir gan y Cynllun Twf. Fe wnaeth yr ymarferiad caffael hefyd sicrhau £101,415 o werth cymdeithasol ychwanegol gan y cyflenwyr, gan gynnwys seminarau technoleg blynyddol, interniaethau posibl, offer am ddim, a chefnogaeth dechnegol.

## FE WNAETHOM FYNYCHU GWOBRAU START UP CYMRU

Roeddem yn noddwyr ar gyfer categori Gogledd Cymru, gyda Plantsea Ltd yn derbyn y wobr. Mae Plantsea Ltd yn ceisio amnewid plastigion sy'n seiliedig ar betrolewm, sy'n niweidiol i'r amgylchedd, gyda dewisiadau amgen bioddiraddadwy, gan ddefnyddio adnoddau naturiol sydd i'w canfod ar y morlin





## DIGWYDDIAD CYN-LANSIO HER ARIANNWR HYDROGEN

Cynhaliwyd digwyddiad cyn-lansio Her Ariannwr Hydrogen ar 18 Ebrill yng Nghyfforddd Llandudno - cyflwynodd Vaughan Gething, Gweinidog yr Economi ar y pryd ac Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru, James Davies AS, brif areithiau yn y digwyddiad. Mynychwyd y digwyddiad gan dros ddeugain o sefydliadau o ar draws y gadwyn gwerth hydrogen, y llywodraeth, a phartneriaid Uchelgais Gogledd Cymru. Roedd y diwrnod yn llwyddiant, gydag adborth cadarnhaol a rhwydweithio sylweddol rhwng sefydliadau.



# DWY FLYNEDD O GYFLAWNI

## Canolfan Prosesu Signalau Digidol (DSP)

Ar ddechrau 2023, fe wnaeth prosiect DSP Prifysgol Bangor ddechrau ei ail flwyddyn o gyflawni. Ers ei lansio, mae'r prosiect wedi symud ymlaen i gyflawni cydnabyddiad academaidd a phroffesiynol mewn cyhoeddiadau megis yr Institute of Engineering Technology a mwy. Hyd yma, mae'r Ganolfan DSP wedi cyflawni'r isod:

- creu 13 o swyddi uniongyrchol gros
- cynhyrchu GVA ychwanegol o £1.275m
- sicrhau £1.5 miliwn o gyllid ychwanegol
- 53 o bobl wedi mynychu sesiynau sgiliau a hyfforddi
- 18 o bartneriaid yn cydweithio

**Yr Athro Paul Spencer, Dirprwy Is-Ganghellor Ymchwil:**

"Fel y prosiect cyntaf i dderbyn cyllid y Cynllun Twf, mae Canolfan DSP yn enghraifft o sut y gall buddsoddiad allanol ysgogi datblygiad economaidd yn sylweddol a meithrin twf a ffyniant Gogledd Cymru yn y dyfodol."



## ABERINNOVATION

Fe wnaeth cynrychiolaeth o'r Bwrdd Rhaglen Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel ymweld ag AberInnovation ar ddechrau mis Gorffennaf. Roedd yr ymweliad yn gyfle gwych i rwydweithio ac roedd yn edrych ar waith AberInnovation ac IBERS ar fwyd-amaeth, ffenomeg a gwaith addasu i'r hinsawdd, ynghyd â gwaith ymchwil o Hwb Dyfodol Gwledig amlddisgyblaethol Prifysgol Aberystwyth.



## CYMERADWYAETH WEINIDOGOL AR GYFER GORCHYMYN ADOLYGU'R HARBWR

Derbyniodd Prosiect Ehangu Porth Caergybi gymeradwyaeth gan Weinidogion Llywodraeth Cymru ar gyfer Gorchymyn Adolygu'r Harbwr ym mis Awst. Mae hyn wedi cael gwared ar un o'r elfennau mwyaf ansicr mewn perthynas â chyflawniad y prosiect.

## LANSIO - PROSBECTWS A FIDEO YNNI CARBON ISEL

Ar y cyd â darparwyr yn y rhanbarth, mae ein Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol (RSP) wedi datblygu adnoddau i dynnu sylw at y cyfleusterau addysgiadol a hyfforddiant gwych sydd ar gael yng ngogledd Cymru i gefnogi'r diwydiant ynni carbon isel.



## YR EISTEDDFOD GENEDLAETHOL

Roedd gennym stondin yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Moduan. Roedd ymwelwyr i'r stondin yn cael gweld arddangosfa ynni llanwol drwy fodel tyrbin, roedd modd i blant gymryd rhan mewn helfa drysor, gweithgaredd cerdyn post a ffrâm hunluniau. Cymerodd Cyfarwyddwr y Portffolio, Alwen Williams, ran mewn trafodaeth banel ar Ddatgloi Economi Gogledd Cymru, dan arweiniad Nia Thomas.





# Prosiectau newydd yn ymuno â'r Cynllun Twf

Ym mis Gorffennaf, fe wnaethom gyhoeddi fod Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru wedi cefnogi argymhelliad i wahodd pum prosiect newydd i ymuno â phortffolio'r Cynllun Twf.

Dyfarnwyd dyraniad dros dro o gyllid cyfalaf y Cynllun Twf i bob un yn amodol ar gytuno ar Femorandwm o Ddealltwriaeth - gan nodi disgwyliadau ohonynt mewn perthynas â sicrhau'r cyllid, a chymeradwyo eu hachosion busnes.

Mae pob un ohonynt yn brosiectau trawsnewidiol, sydd â'r potensial i ddod ag ychwanegiad sylweddol i gymunedau Gogledd Cymru a'r economi drwy greu cyfleoedd buddsoddi a chyflogaeth ychwanegol mewn sectorau allweddol. Maent yn adlewyrchu ein gweledigaeth ar gyfer ffyniant economaidd arloesol a chynaliadwy trwy gydweithio rhwng y sectorau cyhoeddus a phreifat.

## Anturiaethau Cyfrifol

Zip World

**£6.2m**

## Porth Wrecsam

Cyngor Bwrdeistrefol Sir Wrecsam

**£4.79m**

## Hwb Hydrogen Caergybi

Menter Môn

**£3.8m**

## Stiwdios Kinmel

Stage Fifty

**£6.8m**

## Gwaith Treulio Anaerobig Glannau Dyfrdwy

The Circular Economy Developments Ltd

**£6.4m**

## YNNI CARBON ISEL

Cafodd yr Achos Busnes Amlinellol ar gyfer Safle Treuliad Anerobig Glannau Dyfrdwy ei gymeradwyo gan y Bwrdd Uchelgais.

Bydd prosiect Glannau Dyfrdwy yn hyrwyddo economi gylchol leol gan ddefnyddio deunyddiau gwastraff o'r diwydiant lleol fel deunydd crai sy'n cyfrannu at ddyfodol gwyrddach i ogledd Cymru.

Bydd prosiect Egni yn golygu adeiladu ail adeilad ar safle M-Sparc, gan ddatblygu Canolfan Ragoriaeth, gan wella ymchwil, dylunio ac arloesi mewn ynni carbon isel.



## ACHOS BUSNES LLAWN EEOC WEDI'I GYMERADWYO

Cymeradwyodd y Bwrdd Uchelgais yr achos busnes llawn ar gyfer Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter (EEOC) Prifysgol Wrecsam. Bydd y Cynllun Twf yn ariannu £11.55m o gyfanswm gwerth y prosiect.

Bydd y prosiect yn darparu canolfan arbenigol ar gyfer ymchwil a datblygu, cydweithrediad busnes a datblygu sgiliau mewn opteg, ffotoneg a deunyddiau cyfansawdd, fel dewisiadau amgen ysgafn ar gyfer gweithgynhyrchu.

## CYNNYDD PARC BRYN CEGIN

Penodwyd y Timau Dylunio ac Ymgynghoriaeth ar gyfer Parc Bryn Cegin, Bangor gan Lywodraeth Cymru. Dyma'r cam cyntaf tuag at gael cynllun prosiect a fydd yn cael ei gyflwyno ar gyfer caniatâd cynllunio a chaniatâd arall.




## RHWYDWAITH TALENT TWRISTIAETH

Fe wnaethom gyhoeddi fod y Rhwydwaith Talent Twristiaeth wedi symud i'w gam cyllido terfynol y Cynllun Twf, ar ôl i'w achos busnes amlinellol gael ei gymeradwyo gan y Bwrdd Uchelgais.

Bydd y prosiect, dan arweiniad Grŵp Llandrillo Menai, yn gweld y ganolfan sgiliau twristiaeth arbenigol gyntaf yn cael ei sefydlu yng Nghymru.
Ei nod fydd trawsnewid y dull o ddatblygu sgiliau ar gyfer y diwydiant twristiaeth a lletygarwch yn y gogledd.

# PROSIECT ADEILADU CYNTAF AR Y GWEILL

## Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter

Ar ddechrau 2024, y Ganolfan Peirianneg Menter ac Opteg oedd prosiect adeiladu cyntaf y Cynllun Twf i symud i gyflawni.

Mae'r Ganolfan Opteg a Pheirianneg Menter yn adeilad arloesol. Bydd yn darparu canolfan arbenigol ar gyfer ymchwil a datblygu, cydweithrediad busnes a datblygu sgiliau mewn opteg, ffotoneg a deunyddiau cyfansawdd, fel dewisiadau amgen ysgafn ar gyfer gweithgynhyrchu. Y canlyniad fydd cynnig cymorth i fusnesau gweithgynhyrchu rhanbarthol i leihau effaith amgylcheddol eu cynhyrchion a'u prosesau.

Bydd y datblygiad hefyd yn integreiddio hydrogen fel ffynhonnell tanwydd amgen gan gyfrannu at arferion cynaliadwy mewn diwydiant.

Rhan allweddol o'r prosiect yw denu buddsoddiad i ogledd Cymru a chreu cyflogaeth leol, gyda rhwng 70 a 90 o swyddi newydd yn cael eu rhagamcan a mwy na 1,000 o bobl wedi'u hyfforddi i ddarparu datrysiadau arloesol ar gyfer y dyfodol.

Mae'r prosiect hefyd yn cynnwys gwelliannau ar gyfer cyfleusterau ar ail safle prifysgol - Canolfan Dechnoleg OpTIC yn Llanelwy.



**Yr Athro Maria Hinfelaar, Is-Ganghellor, Prifysgol Wrecsam:**

"Mae'r buddsoddiad hwn wedi galluogi adeilad trawsnewidiol a fydd - unwaith y bydd yn weithredol, yn cefnogi busnesau rhanbarthol i ddatblygu datrysiadau arloesol i'w heriau gweithgynhyrchu, lleihau allyriadau carbon ac arwain at fanteision cost ac effeithlonrwydd posib."



## Y STRATEGAETH FUDDSODDI

Cymeradwywyd Strategaeth Fuddsoddi ar gyfer Gogledd Cymru gan y Bwrdd Uchelgais. Nod y strategaeth yw denu Cynllun Twf a datblygiad economaidd rhanbarthol ehangach i'r rhanbarth.

## ACHOS BUSNES AMLINELLOL CYN YSBYTY GOGLEDD CYMRU WEDI'I GYMERADWYO

Cafodd Achos Busnes Amlinellol Cyn Ysbyty Gogledd Cymru ei gymeradwyo gan y Bwrdd Uchelgais. Mae'n edrych yn debyg y bydd y safle yn rhan ganolog o'r gymuned unwaith eto, gan ddarparu cyflogaeth a chartrefi i bobl leol.



## HWB HYDROGEN YN CAEL NODDWR

Dewiswyd noddwr gan y Bwrdd Uchelgais ar gyfer yr Her Ariannwr Hydrogen.

Mae'r prosiect yn bwriadu gweithredu cynhyrchu hydrogen cadwyn llawn, trafnidiaeth a defnydd terfynol.

Bydd y cam nesaf yn y broses yn golygu bod yr ariannwr yn cytuno ar Femorandwm o Ddealltwriaeth gydag Uchelgais Gogledd Cymru cyn datblygu achos busnes amlinellol dros y flwyddyn i ddod.

## SYSTEMAU BWYD RHANBARTHOL YNG NGOGLEDD CYMRU

Sicrhawyd cyllid gan Lywodraeth Cymru tuag at ddarn o ymchwil a dadansoddiad i gryfhau systemau bwyd lleol a rhanbarthol yng Ngogledd Cymru. Cynhaliwyd cyfres o weithdai i nodi prosiectau bwyd-amaeth rhanbarthol posib yn y dyfodol.



## EEOC YN DECHRAU ADEILADU

Ynghyd â Phrifysgol Wrecsam, fe wnaethom lofnodi'r cytundeb cyllido ar gyfer prosiect y Ganolfan Peirianneg Menter ac Opteg.

Dilynwyd hyn gyda seremoni swyddogol i Dorri'r Dywarchen ar y safle. I nodi dechrau prosiect adeiladu cyntaf Cynllun Twf Gogledd Cymru, ymunodd cynrychiolwyr o'r Brifysgol, Uchelgais Gogledd Cymru ac Wynne Construction gyda Fay Jones AS, Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru a Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ar y safle ar Gampws Plas Coch Prifysgol Wrecsam yn Wrecsam.

# CRONFA BAND EANG LLEOL

Daeth prosiect cronfa Band Eang Lleol i ben ar ddiwedd mis Mawrth. Ariannwyd y prosiect dan arweiniad Uchelgais Gogledd Cymru drwy Gronfa Band Eang Lleol Llywodraeth Cymru. Mae'r prosiect wedi uwchraddio cysylltiadau band eang ar 17 safle a reolir gan y sector cyhoeddus ac roedd hyn yn cynnwys gosod band eang ffeibr optig sydd â gallu gigabit mewn awdurdodau lleol a safleoedd iechyd yn Wrecsam, Gwynedd, Sir y Fflint, Sir Ddinbych a Chonwy. Roedd y safleoedd hyn yn cynnwys llyfrgelloedd a neuaddau pentref. Mae'r gwaith wedi arwain at welliannau ehangach i'r rhwydwaith yn yr ardaloedd targed.

uwchraddio cysylltiadau band eang i

**17**

o safleoedd a reolir gan y sector cyhoeddus





# CYNLLUN TWF GOGLEDD CYMRU

funded by:

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

UK Government
Llywodraeth y DU
Office of the Secretary of State for Wales
Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru

# TROSOLWG O'R CYNLLUN TWF

- Adeiladu economi fwy bywiog, cynaliadwy a gwydn yng Ngogledd Cymru.
- Adeiladu ar ein cryfderau, hybu cynhyrchiant wrth fynd i'r afael â heriau tymor hir a rhwystrau economaidd i sicrhau twf cynhwysol.
- Hyrwyddo twf mewn modd graddadwy, cynhwysol a chynaliadwy, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

## BUDDSODDIAD

**£240M**
Targed buddsoddiad cynllun twf

Cyfanswm y Buddsoddiad
Targed dros **£1bn**

## AMCANION GWARIANT

Creu hyd at
**4,200**
o swyddi newydd

Cynhyrchu hyd at
**£2.4bn**
o GVA ychwanegol net

## EIN RHAGLENNI

- Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel
- Bwyd-amaeth a Thwristiaeth
- Cysylltedd Digidol
- Tir ac Eiddo
- Ynni Carbon Isel

# Bwyd-amaeth a Thwristiaeth

**Nod y rhaglen hon yw hyrwyddo a chefnogi cyflogaeth a hyfforddiant yn y sectorau Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth, gan adeiladu ar sgiliau ac arbenigedd o'r radd flaenaf sydd eisoes wedi'u sefydlu yn y rhanbarth.**



### Hwb Economi Wledig Glynllifon

**Prif Ariannwr: Grŵp Llandrillo Menai**

Hwb economi gwledig arbennig, o safon fyd-eang, sy'n cynnig cyfleusterau a gwasanaethau trosglwyddo gwybodaeth gradd bwyd i wella'r sector bwyd a diod.

Paratoi yr achos fusnes llawn



### Rhwydwaith Talent Twristiaeth

**Prif Ariannwr: Grŵp Llandrillo Menai**

Darparu sgiliau twristiaeth a lletygarwch ar gyfer y dyfodol a chynyddu'r manteision masnachol o un o'r sectorau sydd wedi'i sefydlu orau ac sy'n tyfu gyflymaf yn y rhanbarth.

Paratoi yr achos fusnes llawn



### Anturiaethau Cyfrifol

**Prif Ariannwr: Zip World**

Bydd y prosiect hwn yn hyrwyddo Gogledd Cymru fel cyrchfan twristiaeth gynaliadwy flaenllaw. Nod y prosiect yw denu ymwelwyr ychwanegol mewn ffordd sy'n amgylcheddol gynaliadwy ac yn ystyriol i gymunedau lleol trwy wneud y mwyaf o'r buddion cymdeithasol, economaidd a diwylliannol i'r rhanbarth.

Paratoi yr achos fusnes amlinellol



# Cysylltedd Digidol

**Mynd i'r afael â heriau cysylltedd o fewn y rhanbarth, gam wella'r gallu i ddatblygu technolegau newydd ar gyfer y dyfodol, gan sicrhau y gall busnesau a thrigolion elwa o gysyllted cyflym, ansawdd uchel.**



### Campysau Cysylltiedig

**Prif Ariannwr: Uchelgais Gogledd Cymru**

Sefydlu cwmpas rhwydwaith mewn safleoedd masnachol allweddol yn y rhanbarth, gan gefnogi busnesau gydag opsiynau i gysylltedd hanfodol..

Paratoi yr Achos Fusnes Amlinellol



### Safleoedd a Choridorau Cysylltiedig

**Prif Ariannwr: Uchelgais Gogledd Cymru**

Gwella dibynadwyedd ac ansawdd gwasanaethau symudol ar y prif ffyrdd a rheilffyrdd yn y Gogledd, gan alluogi gwasanaethau ffibr llawn i safleoedd masnachol allweddol ledled y rhanbarth.

Paratoi yr Achos Fusnes Llawn



### Canolfan Prosesu Signal Digidol

**Prif Ariannwr: Prifysgol Bangor**

Ymchwil a datblygu technolegau newydd sy'n gwella sut mae data yn cael ei brosesu'n effeithlon ac yn ddibynadwy rhwng dyfeisiau a phobl.

Gweithredu a monitro prosiect



### Yr Ychydig % Olaf

**Prif Ariannwr: Uchelgais Gogledd Cymru**

Darparu band eang 'superfast' (30Mbps) o leiaf i gymunedau sydd â chysylltedd gwael ledled y Gogledd.

Paratoi yr Achos Fusnes Llawn

# Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uwch

Hyrwyddo arloesedd a masnacholi technoleg yn y diwydiant gweithgynhyrchu, gan adeiladu ar gryfder presennol y sector o fewn ein rhanbarth.



### Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol

**Prif Ariannwr: Prifysgol Bangor**

Archwilio'r defnydd o brosesau biolegol fel dewisiadau carbon isel yn lle cynhyrchion a phrosesau gweithgynhyrchu diwydiannol.

Paratoi yr Achos Cyfiawnhad Busnes



### Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter

**Prif Ariannwr: Prifysgol Wrecsam**

Darparu cyfleusterau o'r radd flaenaf i archwilio opteg, ffotoneg a deunyddiau cyfansawdd fel dewis amgen o ddeunydd ysgafn, a fydd yn lleihau carbon o fewn y sector gweithgynhyrchu.

Gweithredu a monitro prosiect

# Tir ac Eiddo

**Mynd i'r afael â heriau tir ac eiddo yn y rhanbarth, i ddatgloi cyfleoedd ac adeiladu ar ein cryfderau. Datblygu safleoedd i ddarparu eiddo preswyl a chyflogaeth. Bydd hefyd yn sicrhau'r capasiti mwyaf posibl mewn cysylltiadau trafnidiaeth allweddol.**



### Cyn Ysbyty Gogledd Cymru

**Prif Ariannwr: Jones Bros Civil Engineering UK**

Cael gwared ar adeiladau peryglus a pharatoi'r safle ar gyfer cartrefi newydd ac unedau masnachol newydd i fusnesau newydd a phresennol adleoli ac ehangu.

Paratoi yr Achos Fusnes Llawn



### Porth Caergybi

**Prif Ariannwr: Stenaline**

Gwella capasiti a chyfleusterau'r porthladd, creu angorfa amlbwrpas i brosiectau ynni newydd, traffig masnachol a llongau mordeithio.

Paratoi yr Achos Fusnes Amlinellol



### Parc Bryn Cegin

**Prif Ariannwr: Uchelgais Gogledd Cymru**

Datblygu adeiladau newydd sy'n addas ar gyfer meithrinfa newydd a phresennol i ehangu a adleoli.

Paratoi yr Achos Fusnes Amlinellol



### Warren Hall, Brychdyn

**Prif Ariannwr: Uchelgais Gogledd Cymru ac Llywodraeth Cymru**

Darparu gwasanaethau sylfaenol i gyflawni lleiniau datblygu i fusnesau newydd a busnesau presennol ehangu neu adleoli.

Paratoi yr Achos Fusnes Strategol



### Porth y Gorllewin, Wrexham

**Prif Ariannwr: Uchelgais Gogledd Cymru**

Darparu gwasanaethau sylfaenol i gyflawni lleiniau datblygu i fusnesau newydd a busnesau presennol ehangu neu adleoli.

Paratoi yr Achos Fusnes Strategol



### Stiwdios Kinmel

**Prif Ariannwr: Stage Fifty**

Bydd y prosiect hwn yn dylunio, adeiladu a gweithredu stiwdio ffilm a theledu newydd ym Mharc Menter Tir Llwyd, Bae Cinmel.

Paratoi yr Achos Fusnes Strategol



### Porth Wrecsam

**Prif Ariannwr: Cyngor Sir Bwrdeistrefol Wrecsam**

Yn rhan o uwchgynllun Porth Wrecsam, nod y prosiect hwn yw cyflwyno cynllun adfywio defnydd cymysg trawsnewidiol o'r ardal o amgylch Gorsaf Gyffredinol Wrecsam.

Paratoi yr Achos Fusnes Strategol

# Ynni Carbon Isel

**Datgloi buddion datblygu prosiectau ynni carbon isel yn y rhanbarth, gan sefydlu Gogledd Cymru fel un o'r lleoliadau arweiniol ar gyfer y sector ynni carbon isel.**



### Cydnerth (Morlais)

**Prif Ariannwr: Menter Môn**

Datblygu cysylltiadau grid ychwanegol ar gyfer cyflenwyr ynni llanw i ddefnyddio mwy o dyrbinau o fewn y parth.

Paratoi yr Achos Fusnes Amlinellol



### Egni

**Prif Ariannwr: Prifysgol Bangor**

Datblygu Canolfan Ragoriaeth, gwella ymchwil, dylunio ac arloesi mewn ynni carbon isel.

Paratoi yr Achos Fusnes Llawn



### Hwb Hydrogen

**Prif Ariannwr: Uchelgais Gogledd Cymru**

Rhoi hwb i'r economi hydrogen yn y rhanbarth drwy gefnogi a datblygu hwb hydrogen.

Paratoi yr Achos Fusnes Strategol Amlinellol



### Ynni Lleol Blaengar

**Prif Ariannwr: Uchelgais Gogledd Cymru**

Helpu prosiectau i gyflawni targedau ynni adnewyddadwy, datgarboneiddio a pherchnogaeth leol.

Paratoi yr Achos Fusnes Llawn



### Trawsfynydd

**Prif Ariannwr: Cwmni Egino (Llywodraeth Cymru)**

Defnyddio Adweithyddion Modiwlaidd Bach neu Uwch ar safle Trawsfynydd i gynhyrchu ynni carbon isel.

Paratoi yr Achos Fusnes Strategol Amlinellol




### Gwaith Treulio Anaerobig Glannau Dyfrdwy

**Prif Ariannwr: The Circular Economy Developments Ltd**

Bydd y prosiect yn hyrwyddo economi gylchol leol gan ddefnyddio deunyddiau gwastraff o ddiwydiant lleol fel porthiant sy'n cyfrannu at ddyfodol gwyrdd i Ogledd Cymru..

Paratoi yr Achos Fusnes Llawn



### Hwb Hydrogen Caergybi

**Prif Ariannwr: Menter Môn**

Bydd y prosiect hwn yn sefydlu cyfleuster cynhyrchu a dosbarthu hydrogen gwyrdd ym Mharc Cybi, Caergybi sydd o fewn ardal Porthladd Rhydd Ynys Môn

Paratoi yr Achos Fusnes Amlinellol

# TROSOLWG LLYWODRAETHU

Sefydlwyd y Bwrdd Uchelgais gan bartneriaid awdurdodau lleol fel cyd-bwyllgor yn 2019 a hwn yw'r corff sy'n gwneud penderfyniadau ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru, ynghyd ag arwain ar gydweithio economaidd rhanbarthol.

Wedi sicrhau'r Cynllun Twf ym mis Rhagfyr 2020, fe wnaeth y partneriaid gytuno i 'Gytundeb Llywodraethu 2'. Mae'r cytundeb, sy'n ddogfen sydd wedi'i rhwymo mewn cyfraith, yn diffinio rôl a swyddogaeth Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, a'i ddefnydd o bwerau dirprwyedig. Yn ogystal, mae'n amlinellu'r strwythurau gwneud penderfyniadau ac atebolrwydd democrataidd.

Mae trefniadau llywodraethu'r Cynllun Twf yn caniatáu i benderfyniadau gael eu gwneud mewn modd agored a thryloyw er budd y rhanbarth cyfan. Tra bod y Bwrdd Uchelgais yn gweithredu fel y corff gwneud penderfyniadau ar gyfer y Cynllun Twf, mae cysylltiadau ffurfiol ac anffurfiol cryf â Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU fel arianwyr y Cynllun Twf.

Mae'r Bwrdd Uchelgais wedi mabwysiadu model cyflawni sy'n seiliedig ar ddull arfer gorau ar gyfer rheoli'r portffolio, y rhaglenni a'r prosiectau. Mae'r dull hwn yn ffordd integredig o fodloni uchelgeisiau'r sefydliad, gan annog gwell penderfyniadau a chynyddu'r tebygolrwydd o gael deilliannau llwyddiannus.


## ADRODD

Mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn cynhyrchu adroddiadau cynnydd chwarterol ac adroddiad blynyddol ar y Cynllun Twf a gaiff eu rhannu gyda Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, y Bwrdd Uchelgais a'i bartneriaid. Mae'r adroddiadau hyn ar gael yn gyhoeddus ar ein gwefan.

## TREFNIADAU CRAFFU

Darperir swyddogaeth craffu Cynllun Twf Gogledd Cymru gan y chwe awdurdod lleol drwy eu trefniadau Pwyllgorau Craffu presennol. Bydd y Pwyllgorau Craffu yn ystyried yr adroddiadau chwarterol a blynyddol a gaiff eu cynhyrchu gan y Swyddfa Rheoli Portffolio.

## STRWYTHUR CYFLAWNI PROSIECTAU'R CYNLLUN TWF



# TU HWNT I'R CYNLLUN TWF





# SGILIAU A CHYFLOGAETH

# TROSOLWG GAN BARTNERIAETH SGILIAU RHANBARTHOL GOGLEDD CYMRU (RSP):

Mae wedi bod yn flwyddyn brysur i Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru. Gyda 12 mis bellach o gyflawni ei gynllun Sgiliau a Chyflogaeth 2023-25, mae'r tîm wedi cyflawni cymaint wrth gefnogi cyflogwyr ac unigolion - ac wedi hwyluso cysylltiadau rhyngddynt. O gomisiynu gwaith ymchwil, i ddatblygu adnoddau ar gyfer pobl ifanc a chyflogwyr, mae wedi bod yn flwyddyn gynhyrchiol - gyda nifer o brosiectau cyffrous ar y gweill.

## UCHAFBWYNTIAU DROS Y FLWYDDYN DDIWETHAF:

### Recriwtio cyn-droseddwyr

Gall dod o hyd i waith ar ôl gadael carchar fod yn anodd i unigolion oherwydd y mythau o recriwtio cyn-droseddwyr. Er mwyn chwalu rhai o'r mythau hyn, bu'r RSP, y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Cymru'n Gweithio, Llywodraeth Cymru a'r DWP yn cydweithio i gynnig ymweliadau cyflogwyr â CEF Berwyn.

Y nod oedd dangos i gyflogwyr sut mae unigolion yn datblygu eu cymwyseddau tra yn y carchar, gan ennill sgiliau ymarferol a throsglwyddadwy ar gyfer y gweithle.




### Peilot Llwybrau Gyrfa

Ar y cyd ag Adran Addysg Cyngor Sir Ynys Môn, Athrawon, Coleg Menai, GwE, Gyrfa Cymru a Llwyddo'n lleol, mae'r Bartneriaeth Sgiliau wedi sefydlu Peilot Llwybrau Gyrfa ar Ynys Môn. Y nod yw ysbrydoli meddyliau ifanc am hyfforddiant lleol a chyfleoedd gyrfa a'r gwahanol lwybrau i'w dyfodol - trwy brosiectau peilot ar draws pob un o'r pum ysgol uwchradd ar yr ynys.

Un prosiect ar gyfer y grŵp yw'r 'Teacher Encounter Pilot', sy'n rhoi cipolwg i athrawon ar gyfleoedd swyddi rhanbarthol, gan eu galluogi i integreiddio'r wybodaeth hon i'w haddysgu yn yr ystafell ddosbarth a gwneud y cysylltiadau rhwng y cwricwlwm a sgiliau gweithio.

Menter arall sy'n cael ei datblygu yw'r prosiect 'Inspire to Build', dan arweiniad yr Is-grŵp Cyflogwyr Adeiladu. Bydd hon yn rhaglen tymor byr, gan dynnu sylw at rolau adeiladu lefel uwch megis pensaernïaeth, cynllunio a mesur meintiau.

### Seminar Cynhadledd Seren: 'Gogledd Cymru: Eich Llwybrau at y Dyfodol'

Cynhaliwyd seminar gan y tîm - 'Gogledd Cymru: Eich Llwybrau at y Dyfodol' mewn Cynhadledd Seren ym mis Tachwedd i dynnu sylw at gyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant i raddedigion. Mynychodd dros 400 o bobl ifanc, lle cawsant wybodaeth am brentisiaethau gradd, gwybodaeth am y farchnad lafur ar sectorau twf allweddol, cyfleoedd Cynllun Twf Gogledd Cymru a gwybodaeth am gyflogwyr sydd â rolau i raddedigion.

## Gwaith Ymchwil Sgiliau Ynni Carbon Isel

Mae Ynni Carbon Isel yn faes twf mawr yng ngogledd Cymru. Er mwyn deall y sector yn well, comisiynwyd Wavehill i gynnal dadansoddiad sgiliau ledled y diwydiant ynni carbon isel yn y rhanbarth. Roedd hyn yn cynnwys gwynt ar y môr ac ar y tir, ynni morol h.y. llanw, yn ogystal â Niwclear gan gynnwys datblygiadau SMR a Dadgomisiynu. Amcan y prosiect oedd deall yn well y sgiliau a'r rolau swyddi sy'n ofynnol gan ddatblygwyr a'u cadwyn gyflenwi, nawr a dros y 10 mlynedd nesaf. Bu datblygwyr allweddol yn y rhanbarth, RWE, Magnox, BP, Cwmni Egino a Morlais yn llywio cyfeiriad y gwaith. Bydd yr RSP nawr yn gweithio gyda darparwyr i ddeall y ddarpariaeth sydd ar gael yn erbyn gofynion y diwydiant a nodi unrhyw fylchau.

## Prosbectws a Fideo Ynni Carbon Isel

Ar y cyd â darparwyr yn y rhanbarth, mae'r Bartneriaeth Sgiliau wedi datblygu adnoddau i dynnu sylw at y cyfleusterau addysgiadol a hyfforddiant gwych sydd ar gael yng ngogledd Cymru i gefnogi'r diwydiant ynni carbon isel wrth iddo esblygu a thyfu. Y nod oedd coladu adnoddau atyniadol sy'n hysbysu ac yn ysbrydoli busnesau yn y diwydiant ynni carbon isel i sefydlu yng ngogledd Cymru, oherwydd cyfleusterau hyfforddi rhagorol y rhanbarth ar gyfer staff.



## Pecyn Cymorth y Person Ifanc

Pobl ifanc yw ein dyfodol felly mae'n hanfodol eu bod yn teimlo fod ganddynt yn wybodaeth lawn am eu hopsiynau. I'w cefnogi i wneud penderfyniadau, mae pecyn cymorth person ifanc wedi'i ddatblygu - gan ddod â gwybodaeth allweddol at ei gilydd fydd yn eu helpu i deimlo'n hyderus wrth wneud dewisiadau am eu dyfodol. Mae'r pecyn cymorth hefyd yn declyn gwych i rieni, athrawon, cynghorwyr gyrfa ac eraill. Datblygwyd pedair elfen allweddol yn y pecyn cymorth - cynllun sgiliau person ifanc, crynodeb fideo animeiddiedig o'r cynllun sgiliau, astudiaethau achos ysgrifenedig a fideos gan unigolion sy'n rhannu eu meddyliau ar weithio yn y rhanbarth.

## Ymchwil Sgiliau Digidol

Er mwyn deall y dirwedd Sgiliau Digidol yn well yng ngogledd Cymru, comisiynwyd ymchwil gan y Bartneriaeth Sgiliau - gan ymgysylltu â sefydliadau o bob maint ac ym mhob sector. Diben hyn oedd cael cipolwg ar anghenion cyflogwyr wrth ystyried sgiliau, teclynnau a thechnolegau digidol sylfaenol ac uwch, yn ogystal ag amrywiaeth yn y gweithlu. Cynhaliodd Tony Venus o ODAG Consulting yr ymchwil a chyflwynodd ei ganfyddiadau a'r adroddiad ac argymhellion, a gafodd eu cymeradwyo gan Fwrdd yr RSP a'r Digital Dozen. Bydd yr olaf yn awr yn gweithredu ar yr argymhellion.



## Pencampwr Pwnc Sgiliau cynghrair ynni ar y môr



Daeth Cynghrair Ynni ar y Môr (OEA) a'r RSP ynghyd i hybu Gogledd Cymru fel canolbwynt ar gyfer cadwyn gyflenwi leol fedrus i'r diwydiant gwynt ar y môr sy'n tyfu. Mae arfordir y rhanbarth yn barod am ymchwydd sylweddol mewn mentrau ynni ar y môr. Gyda Mona, Morgan, ac Awel y Môr, bydd ffermydd gwynt ar y gweill yn chwarae rhan ganolog yn nhirwedd ynni adnewyddadwy'r DU. Mae'r cydweithrediad rhwng y Bartneriaeth Sgiliau ac OEA wedi'i gynllunio i sicrhau bod gofynion sgiliau yn cael eu rhagori.



# CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD

# CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD

## Y CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG

Mae Cyd-bwyllgorau Corfforedig (CJCs) yn endidau llywodraeth leol corfforaethol, rhanbarthol newydd sydd â phwerau, dyletswyddau, llywodraethiant a strwythurau gweinyddol tebyg i awdurdodau lleol yng Nghymru.

Daeth rheoliadau Llywodraeth Cymru i rym ym mis Ebrill 2021 ac o 30 Mehefin 2022 ymlaen, neilltuwyd eu dyletswyddau statudol i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig i baratoi Cynllun Datblygu Strategol a Chynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. Yn ogystal, mae ganddynt gyfrifoldeb i wella a hyrwyddo lles economaidd yr ardal.

Mae Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd yn cynnwys y chwe awdurdod lleol yng ngogledd Cymru ynghyd ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

Bydd y corff corfforaethol newydd hwn yn dal i gael ei alw'n Uchelgais Gogledd Cymru - gan sicrhau ein bod yn adeiladu ar ein gwaith cydweithredol a'n henw da sefydledig. Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru fydd ein henw cyfreithiol.

## TROSGLWYDDO UCHELGAIS GOGLEDD CYMRU

Cytunwyd y bydd swyddogaethau Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn cael eu trosglwyddo i Gyd-bwyllgor Corfforaethol y Gogledd. Bydd pedair ffrwd waith annibynnol yn cael eu sefydlu ar gyfer y trosglwyddiad, sef Cyfreithiol a Llywodraethu; Pobl ac Adnoddau Dynol; Cyllid, prosesau a systemau; a Chyfathrebu ac Ymgysylltu.

## CYNLLUN DATBLYGU STRATEGOL

Mae Cynllun Datblygu Strategol yn cydnabod nad yw cynllunio ar gyfer ardal weinyddol awdurdod cynllunio lleol unigol o reidrwydd yn adlewyrchu sut mae pobl yn byw eu bywydau, sut mae marchnadoedd yn gweithredu na sut mae busnesau'n gweithredu. Mae Cynllun Datblygu Strategol yn cynnig y gallu i sicrhau bod ardal ddaearyddol ehangach yn cael ei hystyried mewn un cynllun.

## CYNLLUN TRAFNIDIAETH RHANBARTHOL

Mae Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn amlinellu'r polisïau i gyflawni system drafnidiaeth hygyrch, gynaliadwy, fforddiadwy ac integredig ar gyfer Gogledd Cymru. Bydd cyflawni'r cynllun a'i flaenoriaethau yn cefnogi'r economi i ffynnu, yn annog symudiad moddol oddi wrth y defnydd o geir preifat, ac yn lleihau effaith amgylcheddol negyddol ein rhwydwaith trafnidiaeth.



# CYNLLUNIAU YNNI ARDAL LEOL

# CYNLLUNIAU YNNI ARDAL LEOL A STRATEGAETH YNNI RHANBARTHOL



**Mae'r Tîm Ynni Strategol wedi gweithio'n agos gyda'r 5 awdurdod lleol (gyda chynllun Conwy eisoes wedi'i ddatblygu) ac ymgynghorwyr ARUP, yr Ymddiriedolaeth Garbon ac Afallen i gyflawni Cynllun Ynni Ardal Leol (LAEP) sy'n benodol i bob ardal Awdurdod Lleol.**

Mae'r Cynlluniau yn amlinellu gweledigaeth rymus ar gyfer sut y gallai system ynni carbon sero-net edrych yn 2050 ar gyfer yr ardal leol. Gan dynnu ar sylfaen dystiolaeth gadarn a ddatblygwyd wrth greu'r Cynlluniau, lluniwyd cynllun gweithredu i ysgogi trosglwyddiad y system ynni leol tuag at sero net.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, roedd ein rôl yn cynnwys:

- Rheoli'r contract gydag ARUP, yr Ymddiriedolaeth Garbon ac Afallen.
- Cydlynu a hwyluso ymgysylltu â rhan-ddeiliaid, cyfarfodydd cynnydd, gweithdai a grwpiau ffocws.
- Darparu persbectif rhanbarthol i'r cynlluniau a chynrychioli'r rhanbarth mewn trafodaethau cenedlaethol.
- Sicrhau cysondeb rhwng y Cynlluniau, y Strategaeth Ynni Rhanbarthol a Chynlluniau a Pholisïau Cenedlaethol.

**Bydd y Cynlluniau Ynni Ardal Leol yn cael eu cwblhau a'u cyflwyno i bob Awdurdod Lleol yn ystod Ch1 2024/25.**





# CYLLID FFYNIANT GYFFREDIN

# CYLLID FFYNIANT GYFFREDIN

Fe wnaethom sicrhau dros £1m o gyllid Ffyniant Gyffredin i gyflawni'r ffrydiau gwaith canlynol sy'n ategu darpariaeth y Cynllun Twf.

## Sgiliau a Chyflogaeth

### Portal Sgiliau a Chyflogaeth

Datblygu Porth Sgiliau a Chyflogaeth ar-lein ar gyfer Gogledd Cymru. Bydd y porth yn cydnabod busnesau blaenllaw, yn darparu gwybodaeth am brosiectau creu swyddi ar raddfa fawr, yn codi ymwybyddiaeth o swyddi a chyfleoedd yn y dyfodol ac yn ysbrydoli pobl ifanc i ystyried gyrfa o fewn sector blaenoriaeth.

## Ynni a Sero Net

### Mynediad i Ynni Lleol Blaengar

Prosiect i gyflenwi grantiau i fusnesau bach a chanolig (SMEs), mentrau cymdeithasol a sefydliadau cymunedol fel y gallant gaffael ymgynghoriad ar ysgrifennu ceisiadau. Yna, y nod yn y pen draw yw i'r busnesau bach a chanolig a'r mentrau cymdeithasol a ddyfarnwyd gael gafael ar gyllid drwy Gronfa Ynni Lleol Blaengar y Cynllun Twf.

### Allyriadau Carbon a Bioamrywiaeth

Rhannu arfer gorau a chyflwyno sesiynau hyfforddi ar sut y dylai ystyriaethau newid hinsawdd lywio datblygiad achos busnes.

## Buddion a Gwerth Cymdeithasol

### Ymrwymiadau ac arferion gorau

Datblygu llwyfan monitro ar-lein ar gyfer ymrwymiadau gwerth cymdeithasol a rhannu arfer gorau.

## Digidol

### Cefnogaeth Gymunedol Ddigidol Wledig

Darparu cymorth i gymunedau wella eu cysylltedd band eang.

### Asesiadau Cysylltedd SME

Rhoi cyngor ac arweiniad penodol i fusnesau bach a chanolig (SMEs) ar sut y gallant fabwysiadu'r technolegau rhwydwaith diwifr diweddaraf i wella cynhyrchedd ac arloesedd.

### Cytundebau Mynediad

Darparu gwybodaeth a chefnogaeth i gynghorau ymchwilio i ddichonoldeb mabwysiadu cytundebau mynediad er mwyn galluogi'r defnydd o golofnau goleuo ar gyfer defnyddio celloedd bach 4G. Nod y prosiect yw darparu'r wybodaeth berthnasol i'r cynghorau.

### Arolwg Darpariaeth Signal Symudol

Prosiect i brynu offer arolygu i alluogi'r rhanbarth i asesu ansawdd signal 4G yn annibynnol ar asesiadau gweithredwyr rhwydwaith eu hunain. Bydd y gallu yn nodi meysydd o angen ac yn helpu i lobïo gweithredwyr ar faterion sy'n benodol i leoliad.

POWERED BY LEVELLING UP

# TŶ GOBAITH



Dewisodd y tîm Tŷ Gobaith fel elusen y flwyddyn. Mae'r tîm wedi bod yn brysur yn codi arian i gefnogi'r elusen ers mis Medi.

Mae'r tîm wedi cymryd rhan mewn Dark Runs ar draws y rhanbarth, wedi cynnal gwerthiant cacennau yn Sarn Mynach, ac wedi trefnu cyfrannu dillad i siop Llandudno yr elusen.

Mae Tŷ Gobaith yn ganolfan rhagoriaeth ar gyfer gofal lliniarol i blant, gan helpu plant a theuluoedd i gael y gofal a'r gefnogaeth orau lle bynnag a phryd bynnag y maent angen hynny.






**Hyd yma, mae'r tîm wedi codi swm anhygoel o**

# £1,810

*yn cynnwys cyfraniad arian cyfatebol gan Gymdeithas Adeiladu Principality

hope house tŷ gobaith
children's hospices

# Y DEUDDEG MIS NESAF

Dros y deuddeg mis nesaf byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar yr un peth, ar y cyd â'n partneriaid. Byddwn yn gyrru ein prosiectau ymlaen i ddarparu'r swyddi newydd a'r buddsoddiad y mae Gogledd Cymru yn eu haeddu.

Ni ddylem anghofio fod y Cynllun Twf yn rhoi sylw i fethiannau cronig yn ein heconomi. Pe bai'r prosiectau hyn yn hawdd eu cyflawni, byddent wedi bod ar waith ers blynyddoedd. Mae datrys y methiannau hyn yn cymryd amser, mae angen amynedd ac mae angen gwytnwch gan bawb sy'n rhan o'r gwaith. I gydweithio, gyda'r ddwy lywodraeth a'r sector preifat, mae angen trugaredd yn y modd yr ydym yn ffurfio partneriaethau, yn y modd yr ydym yn arwain ac ysbrydoli timau i oresgyn y rhwystrau a chyflawni'r prosiectau heriol hyn gyda'n gilydd.

Yn y pendraw, rydym oll yn anelu at yr un canlyniad, rydym eisiau gweld Gogledd Cymru'n ffynnu ar bob lefel ac yn cystadlu ar raddfa fyd-eang. Mae hyn yn rhoi cyfle i ni gadw ein pobl ifanc talentog a chynnig swyddi iddynt sy'n rhoi safon byw haeddiannol. Nid oedd hyn ar gael pan oeddwn i'n gadael yr ysgol felly rwy'n teimlo'n angerddol iawn am wneud gwahaniaeth i'r cenedlaethau sy'n dod ar fy ôl. Gadawais Ogledd Cymru yn 22 mlwydd oed a dychwelais yn ôl yma i weithio'n 43 mlwydd oed. Treuliais dros dau ddegawd o fy mywyd - bosib iawn y rhai pwysicaf un, yn adeiladu fy ngyrfa yng Nghaerdydd a Llundain. Mae'n fraint i mi nawr gael bod yn y rôl hon ac er gwaethaf yr heriau byddaf yn sicrhau bod buddsoddiad y Cynllun Twf yn gwneud gwahaniaeth go iawn ac yn cynnig y dewis, na chefais i, i bobl ifanc.

Wrth edrych i'r dyfodol, bydd hanner cyntaf y flwyddyn yn eithriadol o brysur a disgwylir y bydd nifer sylweddol o achosion busnes yn cael eu cymeradwyo gan gynnwys Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych, Gwaith Treulio Anaerobig Glannau Dyfrdwy, y Rhwydwaith Talent Twristiaeth a'r Ganolfan Biotechnoleg Amgylcheddol.

Yn ogystal â gwneud cynnydd ar y prosiectau allweddol hyn, rydym am ymgymryd â newid sylweddol wrth i dîm y Swyddfa Rheoli Portffolio a Chynllun Twf Gogledd Cymru drosglwyddo i Gydbwyllgor Corfforaethol Gogledd Cymru. Byddaf yn canolbwyntio'n llwyr ar drosglwyddiad llwyddiannus a didrafferth y prosiectau hyn, a phobl hefyd yn y pendraw, i'r endid Llywodraeth Leol newydd hwn. Ym mis Gorffennaf 2024, byddaf yn symud i rôl Prif Weithredwr Cydbwyllgor Corfforaethol Gogledd Cymru ac yn parhau â'r gwaith i sicrhau ein bod yn cyflawni'n dyletswyddau statudol ac yn llunio Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, Cynllun Datblygu Strategol ac yn gwneud popeth o fewn ein gallu i hyrwyddo llesiant economaidd y rhanbarth.

Ar lefel bersonol, ac i fod yn dryloyw, eleni yw'r flwyddyn fwyaf heriol i mi ei chael ers ymuno â Llywodraeth Leol yn 2020. Mae fy nhîm, Partneriaeth Uchelgais Gogledd Cymru a chydweithwyr ehangach sy'n ystyried eu hunain yn rhan o 'Dîm Gogledd Cymru' yn griw anhygoel o bobl angerddol sydd eisiau gwneud gwahaniaeth. Gyda'n gilydd byddwn yn dod o hyd i'n ffordd trwy'r heriau sydd o'n blaenau ac yn edrych ymlaen at y flwyddyn i ddod gyda doethineb, hyder a brwdfrydedd.



**Alwen Williams**
**Cyfarwyddwr Portffolio**

# EIN PARTNERIAID

# £240M O GYLLID CYNLLUN TWF GAN